# MARWNAD,

NEU

## DDUWIOL GOFFADWRIAETH

AM FARWOLAETH Y

## Parchedig WILLIAM THOMAS,

*O'r Ty Draw, y Pile,*

YN SWYDD FORGANWG;

*Yr hwn a ymadawodd a'r byd, y 22 o Awst. 1811, yn 88 o'i oed, wedi bod dros 72 yn Milwrio ac yn Pregethu dan faner ei Arglwydd Iesu Grist.*

---

Gan DANIEL DANIEL, o'r Constant.

---

Y cyfiawn fydd byth mewn Coffadwriaeth. SALM cxli. 6

---

RWY'N rhoi pin i lawr ar bapur,
Nis gwn pa fodd y fyn'd ymlaen,
I sôn am dad oedd yn yr eglwys,
O'r anialwch aeth yn lân;
Os caf gymhorth oddi uwchod,
A goleuni 'r golofn dân,
Pwy a wyr cyn bo'i mi orphen,
Na bydd halen ar y gân?

2. William Thomas ddiwyd enwog,
Ei gorph sydd heddyw yn y bedd,
Gwedi gorphen ar ei yrfa,
A'i enaid mewn tragwyddol hedd;
Ni ddaw rhyfel poen na methiant,
Byth o fewn y wlad lle mae,
Ond llawenydd a hyfrydwch,
Gydâ 'r bendigedig rai.

WG 33.5.197
XYCS 316794

3. Ni'th raid achwyn i'r llafurwr,
   Dori 'r yd i lawr cyn pryd,
Rhoddwyd iddo gyflawn ddyddiau,
   A gorchwyl yn ei law o hyd;
Gwedi olchi yn y ffynnon,
   Gwedi gannu yn y gwaed,
Gwedi maddeu ei holl bechodau,
   Fe aeth adre at ei Dad.

4. Nid a'i son am dano yma,
   Fel rhyw ffermwr diwyd dryd,
Casglu'r yd i mewn i'r scubor,
   Rhoddi 'r gwair dan grongwyd glyd;
Hyn a gair gan y bydolion,
   Y rhai sydd ymma 'n gwneud ei tre,
Ond roedd calon William Thomas,
   Yn gogwyddo at bethau 'r ne'.

5. Y Mae 'n gof gan rai o'r brodyr,
   Ei dystiolaeth felus glyd,
Ar ddydd calan yn gyrneli,
   Lle 'r oedd amryw 'n cwrdd ynghyd;
Deuddeg mlynedd lawn a thrugain,
   "Ge's yngwinllan Brenin ne',
Pe cawn ddeuddeg mil yn rhagor,
   Ni newidiwn ddim o'm lle."

6. Pwy mor aml mewn griddfanau,
   A gweddiau ddydd a nos,
Dros y byd a thros yr eglwys,
   Dros elynion creulon croes?
Cafodd siampl gan ei Arglwydd
   Ac wrth honno mynnai fyw
Ffaelodd neb a'i droi o'r llwybr
   Ne's mynd adre at ei Dduw.

7. Tori ei fara i'r newynog,
   Oedd ei bleser nos a dydd,
Rhoddi gwisg i guddio noethni,
   Yn enwedig blant y ffydd;
Gwneuthur da yn lle drygioni,
   Nes oedd rhai o blant y byd,
Yn ffaelu dywedyd yn ei erbyn,
   Ond yn gorfod mynd yn fud.

8. Nid gwr ffraeth ei ymadroddion,
 Mewn cwmpyniaeth oedd efe,
Dystaw tawel ac anaml,
 Oedd ei eirian ymhob lle;
Prudd ochneidio am i'r gweiniaid,
 Gael nerth i ddal eu gyrfa i maes,
Pwy all ddweyd yngwyneb Bibl,
 Nad yw rhain yn nodau gras?

Fe fu'n teithio hir flynyddau,
 Yn y gogledd faith a'r de,
Yn cyhoeddi pur efengyl
 Gallu Duw lle cym'ro hi le;
Fe aeth rhai o ffrwyth ei lafur,
 I'r llawenydd pur o'i flaen,
Fe ddaw torf o blant y cystudd,
 Etto i seinio 'r nefol gan.

10. Gwedi natur gael ei maeddu,
 Methiant oedran ddod ymlaen,
Ffaelu teithio bro a bryniau,
 Draw ac ymma fel o'r blaen;
'Roedd ei eiriau 'n fuddiol gartre,
 Nid oedd diffig ar ei ddawn,
Melus, iraidd, awdurdodol,
 O drysorau 'r nef yn llawn.

11. 'Roedd ei glust yn denau i wrando,
 Ble clafychai gwraig yr Oen,
Ble'r oedd plant yn cael eu geni,
 Ac yn ffaelu tewi sôn;
Dân weddio fe a'i yno,
 Ac a dynnai 'r nef i lawr,
Nes bai 'r rhai oedd gynne yn wylo,
 Yn bloeddio o lawenydd mawr.

12. Os ai gwan i ddweyd ei brofiad,
 Pwy mor waned ag efe,
Medrai yn wastad gydymdeimlo,
 A'r rhai tlota ymhob lle;
Annog pawb o'i anwyl frodyr,
 Garu eu gilydd yn ddilai,
Ac na byddai i gariad oeri,
 Er o bosibl weled bai.

13. Cegin, parlwr, cell, a scybor,
Oedd yn rhydd at achos Duw,
'Stafell, gwely, bwrdd, canhwyll-bren,
Pob peth arall yn ei ryw;
Arian, aur, pan byddai galwad,
Gwair, a cheirch, a phorfa fras,
Etto 'r blawd oedd yn y celwrn,
A'r olew byth yn cadw ei flas.

14. Fe wna gras ei ol lle byddo,
Surdoes yw lle cym'ro ei le,
Fe dâl yr Arglwydd ar ei ganfed,
Yn y byd hwn i blant y ne;
Os hau yn brin, yn brin rhaid medi,
Cofiwn hynny blant y ffydd,
Ond ymhelaethu mewn daioni,
Fe ddaw *crop* o hyn ryw ddydd.

15. Fe gyhoeddai yn wyneb angau,
Er mor arwed yn ei wedd,
Nid oes yn awr ddim damnedigaeth,
Fe ddaeth Crist i'r lan o'r bedd,
Y mae 'r dyled wedi eu dalu;
Ar biliau wedi ei croesi gyd,
Fe gaiff plant yr arfaeth forau,
Fythol wel'd ei wyneb bryd.

16. Ffarwel iddo rhaid ymado,
Er ei ddoniau yn ei ddydd,
Nid ei golled, ond ei ennill,
Fe ga's farw yn y ffydd;
Gwedi teithio hir flynyddau,
Hardd bererin yn ei le,
Heddyw ymhell tu hwnt i ofid,
Gyda 'r Iesu draw yn nhre.

DIWEDD.

*J. Voss, Argraffydd, Abertawe.*